ANERCHIAD ANGLADD

SYLWADAU YNGLŶN Â'R UN SYDD WEDI MARW

[Defnyddia unrhyw rai sy'n berthnasol ac sy'n addas.]

Rho fanylion ynglŷn ag oedran, geni, pryd priodwyd, teulu sy'n goroesi, ac yn y blaen

Adrodd hanes ei fywyd yng ngwasanaeth Jehofa, gan gynnwys y breintiau y mwynhaodd

Sonia am nodweddion canmoladwy a ddangoswyd gan yr un sydd wedi marw (Pre 7:1)

MAE ANGEN CYSUR ARNOM YN YSTOD PROFEDIGAETH

Mae galaru yn ymateb hollol naturiol i golli anwylyn (Ge 23:2; 37:34, 35)

Pan fu farw Lasarus, cysurodd Iesu y rhai oedd yn galaru a chydymdeimlodd â nhw (In 11:23-26, 33-35)

Mae gan Jehofa Dduw deimladau tyner tuag at bobl sy'n galaru ac mae ef yn addo i'w cysuro (Sal 34:18; 147:3)

MAE'R BEIBL YN RHOI GOBAITH I'R MEIRW

Jehofa yw Duw doethineb, cyfiawnder, cariad, a gallu

- Nid oedd marwolaeth yn rhan o'i bwrpas gwreiddiol ar gyfer y ddynolryw
  - Daeth marwolaeth o ganlyniad i anufudd-dod Adda (Ge 2:7, 15-17; 3:19)
  - Etifeddodd pob un o ddisgynyddion Adda farwolaeth (Rhu 5:12)
- Mae Duw wedi rhoi gobaith sy'n hollol sicr o gael ei gyflawni (Esei 55:10, 11; Dat 21:4)

Dywed y Beibl yn glir beth yw cyflwr y meirw

- Nid yw'r enaid yn anfarwol (Esec 18:4, 20)
- Mae'r meirw yn anymwybodol (Sal 146:4; Pre 9:5, 10)

Mae'r Beibl yn rhoi'r gobaith bydd miliynau o bobl sydd wedi marw yn byw unwaith eto

- Aberth Iesu Grist sy'n gwneud i'r atgyfodiad fod yn bosibl (Mth 20:28)
- Atgyfodiad Crist sy'n sicrhau hynny (1Co 15:22, 23)
- Apwyntiodd Duw Iesu i atgyfodi'r meirw (In 5:25, 28, 29)
  - I Gristnogion eneiniog, cânt eu hatgyfodi i fywyd nefol (1Co 15:51-54; Dat 20:4, 6)
  - Atgyfodwyd "defaid eraill" Iesu i fywyd ar ddaear Baradwys (In 10:16; Lc 23:43)
  - Bydd hefyd atgyfodiad i'r rhai sydd wedi marw ond heb gael cyfle i ddeall y gwir o'r Beibl a'i roi ar waith (Act 24:15)

SUT CAWN LES O FOD YMA?

Mae cynhebrwng yn ein hatgoffa pa mor fyr a pha mor fregus y mae bywyd (Pre 9:11)

- Mae dod wyneb yn wyneb â marwolaeth yn gwneud inni feddwl am sut rydyn ni'n defnyddio ein bywydau (Sal 90:12)
  - Drwy ein ffordd o fyw, gallwn ni wneud "enw da" gyda Jehofa Dduw (Pre 7:1-4)
  - Anogodd Iesu inni gasglu trysorau yn y nef (Mth 6:19-21)
  - Drwy ein gweithredoedd selog a'n hymddygiad duwiol, rydyn ni'n cyfrannu at y gwaith o sancteiddio enw Jehofa (Dia 27:11)
- Mae gobaith o'r atgyfodiad yn ein cymell ni i ddysgu ewyllys Duw ac i'w wneud (1Co 15:58; 1Ti 2:3, 4)
  - Gall y rhai sy'n gwneud hynny fod yn sicr y byddan nhw'n gweld eu hanwyliaid yn yr atgyfodiad cyn bo hir

Dylen ni ddefnyddio'r achlysur hwn a'r dyddiau nesaf i gysuro ein gilydd (1The 5:11)

- Fel cyd-gredinwyr, gallwn atgoffa ein hunain o'r gobaith sicr hwn a chynnal ein gilydd yn emosiynol (Dia 17:17)
- Dibynnwn ar Jehofa mewn gweddi iddo roi i bob un y nerth i barhau tan ddaw esmwythâd parhaol (Sal 9:9, 10)

[Nodyn: Mae agor mewn gweddi yn opsiynol. Pwrpas yr anerchiad yw clodfori Jehofa yn Dduw cariad a thrugaredd, ac ar yr un pryd cysuro'r rhai sy'n galaru. Rho dystiolaeth dda am y gwir gan gofio i siarad yn gyfeillgar ac yn gynnes. Nid oes rhaid trafod pob ysgrythur a phwynt. Addasa'r deunydd yn ôl anghenion y rhai sy'n galaru a'r un sydd wedi marw. Er nad yw'n addas i orglodfori'r un sydd wedi marw, mae'n addas i sôn am ddigwyddiadau yn ei fywyd drwy'r anerchiad, er mwyn dangos sut gall pawb yn y gynulleidfa ddysgu o'i esiampl. Bydd yn gytbwys yn hyn o beth. Cei di ddewis trefnu a pharatoi cyfweliad â brawd cymwys oedd yn adnabod yn dda yr un sydd wedi marw. Dylet ti fod yn gymedrol o ran defnyddio hiwmor. Dylet hefyd gadw urddas yr achlysur. Nid oes rhaid i'r anerchiad fod yn fwy na 30 munud. Paid â gwahodd aelodau'r gynulleidfa i fynegi sylwadau am yr un sydd wedi marw, gan fod hynny'n gallu arwain at elfennau anysgrythurol yn y rhaglen. Mae defnyddio un o caneuon y Deyrnas yn opsiynol i naill ai agor neu gloi'r rhaglen, neu'r ddau. Priodol yw cloi mewn gweddi fer. Pan drefnir i fynd at y bedd, da yw ystyried yn fyr ein gobaith yn Nheyrnas Dduw a darllen ysgrythur neu ddwy fel Job 14:14, 15 a 1 Corinthiaid 15:54b-57. Gellir gorffen y gwasanaeth hwn hefyd â gweddi, gan ddiolch i Jehofa am obaith yr atgyfodiad.]

S-32-W 12/16

© 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania